**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**11th TACHWEDD 2020**

**EITEM YCHWANEGOL**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO, GWARCHOD Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CEFN GWLAD**

# FFERM YNNI SOLAR ELWY - DATBLYGIAD O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL

# YMATEB I'R YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO STATUDOL

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 1.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cael gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ar Fferm Ynni Solar Elwy arfaethedig yn Llanelwy.

1.2 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio safbwyntiau'r Aelodau ar y cynnig.

## 2. CEFNDIR I DDATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL

2.1 2.1 Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gategori newydd o 'Ddatblygiadau o Arwyddocâd Sylweddol' yng Nghymru. Rhain yw ceisiadau cynllunio a gyflwynir i Lywodraeth Cymru yn hytrach na'r awdurdodau cynllunio lleol.

2.2 Mae datblygiadau o arwyddocâd sylweddol yn brosiectau datblygu isadeiledd mawr o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys meysydd awyr, rheilffyrdd, cyfleusterau cadw nwy a gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y tir gan gynnwys ffermydd gwynt a pharciau solar.

2.3 Rheolir y broses ymgeisio am ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd Arolygydd Cynllunio yn archwilio'r cais ac yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru. Yna bydd y Gweinidog yn penderfynu cymeradwyo caniatâd cynllunio neu beidio.

2.4 Cyn cyflwyno cais datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol i'r Arolygiaeth Gynllunio, rhaid i'r ymgeisydd gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio gyda'r cyrff statudol a'r gymuned leol a ddylai bara am oddeutu 6 wythnos. Mae'r Cyngor Sir a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn ymgyngoreion statudol.

2.5 Yna dylid defnyddio ymatebion i'r ymgynghoriad i fireinio'r cynnig a bydd angen paratoi a chyflwyno Adroddiad Ymgynghori yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd gyda'r cais.

2.6 Unwaith i'r cais gael ei gyflwyno, bydd yr awdurdod lleol perthnasol ac ymgyngoreion eraill yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ffurfiol ar y cais a bydd yr awdurdod lleol angen cyflwyno 'Adroddiad Effaith Lleol' a fydd yn cynorthwyo'r Arolygydd i ganfod y prif faterion cynllunio.

2.7 Yn ogystal â'r Adroddiad Effaith Lleol, gall yr awdurdod lleol hefyd gyflwyno sylwadau ffurfiol ar y cynnig.

2.8 Unwaith i'r holl sylwadau ysgrifenedig gael eu cyflwyno, efallai y cynhelir Gwrandawiad neu Ymchwiliad er mwyn archwilio'r prif faterion cynllunio ymhellach, a gall yr awdurdod lleol a'r partïon sydd â diddordeb gymryd rhan yn y sesiynau hyn pe dymunent.

## 3. CYNNIG FFERM YNNI SOLAR ELWY:

3.1 Mae Solar Century (y datblygwr) yn cynnig datblygu fferm ynni solar ar dir i'r gogledd o'r A55 ac i'r gorllewin o'r A525 yn Llanelwy.


3.2 Bydd y cynnig yn ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol.

3.3 Mae’r safle yn 117 o hectarau a byddai’r parc solar â chapasiti o 62 MW (megawatts).

3.4 Mae’r safle wedi’i leoli o fewn Ardaloedd Ward Gorllewin Llanelwy, Bodelwyddan a Threfnant.

3.5 Mae **cynllun lleoliad safle** a **chynllun safle arfaethedig** wedi’u hatodi i flaen yr adroddiad hwn.

3.6 Mae cynllun y safle a ddaeth o grynodeb annhechnegol Datganiad Amgylcheddol drafft y datblygwyr isod:




3.7 Byddai’r fferm ynni solar yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Rhesi o baneli Ffotofoltäig (PV) wedi’u gosod ar ongl ar y tir gydag uchder o hyd at 3 metr.
- 25 is-orsaf yn cynnwys adeilad switsys gydag offer cyfathrebu a throsglwyddydd allanol wedi’i leoli o amgylch y safle.
- Is-orsaf allforio (adeilad trosglwyddo ategol) i’w leoli mewn cwrt yn rhan ddeheuol y safle ger yr A55.
- 25 o unedau storio batris yn cynnwys adeiladu storio gydag offer cyfathrebu a throsglwyddwr allanol i’w lleoli mewn cwrt mewn rhan ddeheuol o’r safle ger yr A55.
- Ffensys diogelwch 2m o uchder o amgylch ffin y safle.

- System teledu cylch caeedig ar bolion 3m mewn mannau o amgylch y safle.
- Mynediad parhaol newydd i gerbydau oddi ar yr A525 a mynediad dros dro i gerbydau i ffin ddwyreiniol y safle i'w ddefnyddio yn ystod y gwaith adeiladu yn unig.
- Traciau mynediad mewnol newydd.
- Ceblau tanddaearol i gysylltu'r fferm solar gydag is-orsaf Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan. Nid yw union leoliad y ceblau tanddaearol wedi eu nodi, ond mae 'coridor cysylltu grid' wedi ei gynnwys fel rhan o'r cais cynllunio. Bydd llwybr y cebl yn cynnwys drilio uniongyrchol o dan yr A55 er mwyn caniatáu cysylltiad o'r safle i'r is-orsaf.
- Cynigir systemau draenio, tirlunio a mesurau ecolegol o fewn y safle.
- Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi'r safle a cheisir am gydsyniad eilaidd gan Weinidogion Cymru er mwyn gwyro'r hawliau tramwy trwy'r safle.

## 4. YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO STATUDOL

4.1 Mae'r Cyngor eisoes wedi darparu sylwadau technegol ar y cynnig fel rhan o'r ymholiad cynllunio cyn-ymgeisio anffurfiol ym mis Ionawr 2020. Mae copi o'r ymateb i'r ymholiad cyn-ymgeisio anffurfiol wedi'i amgáu fel **Atodiad 1** yn yr adroddiad hwn.

4.2 Cyflawnodd y datblygwr eu ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol ar y cynnig o fis Awst tan Hydref 2020.

4.3 Mae Swyddogion unigol wedi cyflwyno sylwadau ac arsylwadau technegol i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio, fodd bynnag, yn unol â'r Cynllun dirprwyo, rhaid cael penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer unrhyw ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

4.4 Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol, fodd bynnag os yw'r Aelodau wedi penderfynu ar ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio, bydd yr ymateb yn ei gwneud yn glir bod y Cyngor yn cadw ei hawl i gyflwyno sylwadau manwl pellach ar y cynnig yn ystod y cam cais cynllunio.

4.5 Gan fod y cynnig ar gyfer ffarm solar a fydd yn cyfrannu tuag at greu mwy o ynni adnewyddadwy yn y Sir, dylid atgoffa'r Aelodau bod y Cyngor wedi datgan argyfwng newid hinsawdd ac ecoleg sydd yn cynnwys ymrwymiad i wneud y Cyngor yn ddi-garbon net erbyn 2030, gwella bioamrywiaeth ar draws y sir a galw ar lywodraethau Cymru a'r DU i ddarparu cymorth ac adnoddau i alluogi'r Cyngor i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gan ystyried cyfraith achosion diweddar, hysbysir yr Aelodau bod y datganiad lleol sy'n ffurfio rhan o benderfyniadau'r Cyngor yn ystyriaeth cynllunio materol.

## 5. PENDERFYNIAD

5.1 Ceisir safbwyntiau gan Aelodau ar y Fferm Ynni Solar Elwy arfaethedig.

5.2 Gofynnir i'r aelodau ystyried y penderfyniadau canlynol:

- Cefnogi'r cynnig;
- Codi pryderon am y cynnig;
- Peidio â chyflwyno unrhyw sylwadau ffurfiol yn ystod y cam hwn.

**EMLYN JONES** **PENNAETH CYNLLUNIO, GWARCHOD Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CEFN GWLAD**

Atodiadau:

Fferm Ynni Solar Elwy – cynllun lleoliad safle
Fferm Ynni Solar Elwy – Cynllun Safle Arfaethedig
Atodiad 1 – ymateb ymholiad cyn-ymgeisio anffurfiol (cyhoeddwyd Ionawr 2020).